



Polisi Diogelu Data

Cyfeirnod Polisi	Pol_GCYGM_7C
Fersiwn	2
Dyddiad mabwysiadu / adolygiad diwethaf	Ebrill 2025
Dyddiad adolygiad nesaf	Ebrill 2028
Dogfen heb ei rheoli unwaith caiff ei hargraffu	

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Prif amcan Gwasanaeth Cerdd Ysgolion Gwynedd a Môn (GCYGM) yw annog gweithgarwch cerddorol yng Nghymru yn benodol trwy hyrwyddo celfyddyd mynegiannol a cherdd yng nghyd-destun dawn, drama, barddoniaeth, teledu a ffilm. Rydym yn cyflawni hyn trwy ddarparu gwersi cerdd offerynnol a lleisiol i oddeutu 5,000 o ddisgyblion gan tua 50 o diwtoriaid proffesiynol, gweinyddu ein cynllun benthyca offerynnau cerddorol a chydlynu'r ensembles rhanbarthol a sirol.

2. PWRPAS

- 2.1 Rydym o ddifri ynghylch preifatrwydd data personol a gwybodaeth arall; rydym wedi cofrestru gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) dan rif cofrestru – Z869229X.
- 2.2 Mae'r polisi diogelu data hwn yn gosod sut mae GCYGM ("ni") yn ymdrin â data ein cwsmeriaid, unigolion sy'n derbyn gwasanaeth, cyflenwyr, cyflogeion, gweithwyr, is-gontractwyr a thrydydd partïon eraill.
- 2.3 Nod y polisi hwn yw sicrhau bod gennym brosesau effeithiol yn eu lle i ddiogelu unrhyw wybodaeth a roddir i ni. Rydym yn ymrwymedig i sicrhau y caiff preifatrwydd ei ddiogelu. Pe byddem yn gofyn i unrhyw un ddarparu gwybodaeth benodol y gellir eu hadnabod ohoni, gallent fod yn sicr mai dim ond yn unol â'r polisi hwn y caiff ei defnyddio.

3. SGÔP

- 3.1 Mae'r polisi diogelu data hwn yn berthnasol i'r holl ddata personol yr ydym yn ei brosesu waeth ar ba gyfrwng y caiff y data hwnnw ei storio neu p'un a yw'n ymwneud â chyflogeion, gweithwyr, cwsmeriaid, unigolion sy'n derbyn gwasanaeth neu gysylltiadau cyflenwyr, defnyddwyr gwefan neu unrhyw wrthrych data arall yn bresennol neu yn y gorffennol.
- 3.2 Mae'r polisi diogelu data hwn yn berthnasol i holl staff cyflogedig y cwmni, y mae'n rhaid iddynt ddarllen, deall a chydymffurfio â'r polisi diogelu data hwn wrth brosesu data personol ar ran Gwasanaeth Cerdd Ysgolion Gwynedd a Môn. Mae'r polisi diogelu data hwn yn gosod yr hyn a ddisgwyliwn er mwyn i ni allu cydymffurfio â chyfraith berthnasol. Mae cydymffurfio â'r polisi diogelu data hwn yn hanfodol a gall gweithredu'n groes i'r polisi diogelu data hwn arwain at gamau disgyblaeth.

4. DIFFINIADAU CYFFREDINOL

4.1 Beth yw diogelu data?

- 4.1.1 Nod diogelu data yw diogelu hawliau unigolyn i breifatrwydd drwy reoleiddio sut mae sefydliadau yn derbyn, yn storio ac yn defnyddio eu data personol. Mae rheolau diogelu data yn rhoi hawliau penodol i unigolion ond hefyd yn gosod dyletswyddau a rhwymedigaethau penodol ar sefydliadau. Mae gan bobl ifanc ac oedolion yr un hawliau diogelu data dan y gyfraith.
- 4.1.2 Rydym yn ymrwymedig i brosesu data yn unol â'n cyfrifoldebau dan y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR), a gaiff eu goruchwyllo a'u reoleiddio gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO). Ymhlith materion eraill, mae'r ICO:
- yn cadw cofnod canolog o'r trefniadau hynny a gaiff eu cofrestru'n ffurfiol gydag ef
 - yn darparu Canllawiau pellach ynghylch materion penodol e.e. marchnata, codi arian ac ati
 - yn gorfodi'r gyfraith drwy ddirwyon ac erlyniadau

4.2 Egwyddorion Diogelu Data Personol

4.2.1 Rydym yn glynu wrth yr egwyddorion sy'n ymwneud â phrosesu data personol a osodir yn y GDPR sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i ddata personol:

- (a) Gael ei brosesu'n gyfreithlon, yn deg ac mewn modd tryloyw.
- (b) Cael ei gasglu ar gyfer dibenion penodol, eglur a chyfreithlon yn unig.
- (c) Bod yn ddigonol, yn berthnasol ac yn gyfyngedig i'r hyn sy'n angenrheidiol yng nghyswllt y dibenion y caiff ei brosesu ar eu cyfer.
- (d) Bod yn gywir a'i gadw'n ddiweddar lle bo angen.
- (e) Peidio â chael ei gadw mewn ffurf sy'n caniatáu adnabod gwrthrychau data am yn hirach nag sydd angen ar gyfer y dibenion y prosesir y data.
- (f) Cael ei brosesu mewn modd sy'n sicrhau ei ddiogelwch gan ddefnyddio mesurau technegol a sefydliadol priodol i ddiogelu yn erbyn prosesu anawdurdodedig neu anghyfreithlon ac yn erbyn colli, dinistrio neu ddifrodi damweiniol.
- (g) Peidio â chael ei drosglwyddo i wlad arall heb i fesurau diogelu priodol fod yn eu lle.
- (h) Bod ar gael i wrthrychau data a bod gan wrthrychau data hawl i weithredu hawliau penodol yng nghyswllt eu data personol. 'Gwrthrych data' yn yr achos hwn yw unrhyw un sydd wedi rhannu ei ddata/data personol â GCYGM'.

Rydym yn gyfrifol am ddangos ein bod yn cydymffurfio â'r egwyddorion diogelu data a restrir uchod a rhaid i ni allu gwneud hynny.

4.2.2 Byddwn yn cynnal Cofrestr Ased Data lawn a fydd yn rhestru'r holl asedau data yr ydym yn eu dal er mwyn cyflawni ein dibenion sefydliadol. Gallwn ddefnyddio data personol ar gyfer dibenion sefydliadol mewnol yn cynnwys, ac heb fod yn gyfyngedig i:

- (a) wella cynnwys a darpariaeth gwersi, cyrsiau, cyngherddau a gweithgareddau cysylltiedig eraill
- (b) prosesu ceisiadau am wersi
- (c) prosesu mynediad i gyrsiau
- (d) trefnu gwersi, cyrsiau, cyngherddau, ensembles rhanbarthol a sirol, teithiau a digwyddiadau
- (e) gweinyddu'r ensembles rhanbarthol a sirol
- (f) codi arian
- (g) gweinyddu cofnodion aelodaeth
- (h) hyrwyddo'r gwasanaeth cerdd drwy gysylltiadau cyhoeddus a marchnata
- (i) gorfodi'n amodau a thelerau a'n gweithdrefnau casglu taliadau
- (j) ac mewn unrhyw ddull rhesymol arall er mwyn gweithredu'n hamcanion sefydliadol neu i ddarparu gwasanaeth penodol

MANYLION Y POLISI

5. Cyfreithlondeb, tegwch a thryloywder

5.1 Cyfreithlondeb a thegwch

5.1.1 Rhaid i ddata personol gael ei brosesu'n gyfreithlon, yn deg ac mewn modd tryloyw yng nghyswllt gwrthrych y data. Gallwn gasglu, prosesu a rhannu data personol yn deg ac yn

gyfreithlon yn unig ac er dibenion penodol. Mae'r GDPR yn cyfyngu ein camau gweithredu ynghylch data personol i ddibenion cyfreithlon penodol.

- 5.1.2 Nid bwriad y cyfyngiadau hyn yw atal prosesu, ond sicrhau ein bod yn prosesu data personol yn deg ac heb effeithio'n andwyol ar wrthrych y data.

Mae'r GDPR yn caniatáu prosesu er dibenion penodol, ac mae rhai o'r rhain wedi'u gosod isod:

- (a) mae gwrthrych y data wedi rhoi ei ganiatâd/ei chaniatâd;
- (b) mae'r prosesu'n angenrheidiol er mwyn gweithredu contract gyda gwrthrych y data;
- (c) er mwyn bodloni ein rhwymedigaethau cydymffurfiaeth cyfreithiol;
- (d) er mwyn diogelu buddion hanfodol gwrthrych y data; neu
- (e) er mwyn canlyn ein diddordebau cyfreithlon er dibenion lle nad ydynt wedi'u diystyru oherwydd bod y prosesu yn rhagfarnu buddion neu hawliau sylfaenol a rhyddid gwrthrychau data. Mae angen gosod y dibenion yr ydym yn prosesu data personol ar gyfer diddordebau cyfreithlon ar eu cyfer mewn hysbysiadau preifatrwydd perthnasol.

5.2 Caniatâd

- 5.2.1 Byddwn yn ceisio caniatâd gwrthrychau data i brosesu eu data personol.

- 5.2.2 Gall gwrthrychau data dynnu caniatâd i brosesu yn ôl unrhyw bryd a chaiff hyn ei anrhydeddu'n brydlon. Mae'n bosib y bydd angen adnewyddu caniatâd os ydych yn bwriadu prosesu data personol er dibenion gwahanol ac anghydnaws na ddatgelwyd pan roddodd gwrthrych y data ganiatâd yn gyntaf.

5.3 Tryloywder (rhoi gwybod i wrthrychau data)

- 5.3.1 Yn unol â'r GDPR, rydym yn darparu gwybodaeth fanwl, benodol i wrthrychau data drwy hysbysiadau preifatrwydd priodol sy'n gryno, yn dryloyw, yn ddealladwy, yn hawdd mynd atynt, ac mewn iaith glir a syml fel y gall gwrthrych y data eu deall nhw'n hawdd.

- 5.3.2 Pryd bynnag y byddwn yn casglu data personol yn uniongyrchol gan wrthrychau data, yn cynnwys ar gyfer dibenion adnoddau dynol neu gyflogaeth, rydym yn rhoi'r holl wybodaeth y mae ei hangen ar wrthrych y data yn unol â'r GDPR yn cynnwys hunaniaeth y rheolydd data, sut a pham y byddwn yn defnyddio, yn prosesu, yn datgelu, yn diogelu ac yn cadw'r data personol hwnnw drwy hysbysiad prosesu teg a gaiff ei gyflwyno pan fo gwrthrych y data yn darparu'r data personol yn gyntaf.

5.4 Cyfyngu pwrpas

- 5.4.1 Bydd data personol ond yn cael ei gasglu ar gyfer dibenion penodol, eglur a chyfreithlon ac ni chaiff ei brosesu ymhellach mewn unrhyw ddull nad yw'n gydnaws â'r dibenion hynny.

- 5.4.2 Os caiff data ei ddefnyddio er dibenion newydd, gwahanol neu anghydnaws â'r hyn a ddatgelwyd pan gafwyd ef yn gyntaf, byddwn yn rhoi gwybod i wrthrych y data beth yw'r dibenion newydd ac yn gofyn am eu caniatâd lle bo hynny'n angenrheidiol.

5.5 Lleihau data

- 5.5.1 Rhaid i ddata personol fod yn ddigonol, yn berthnasol ac yn gyfyngedig i'r hyn sy'n angenrheidiol yng nghyswllt y dibenion y caiff ei brosesu ar eu cyfer.

5.5.2 Dim ond y data personol yr ydych ei angen ar gyfer dyletswyddau eich swydd y gallwch ei gasglu: ni fyddwn yn casglu data gormodol ac ni fyddwn yn gwneud copïau diangen, a byddwn yn sicrhau bod unrhyw ddata personol a gesglir yn ddigonol ac yn berthnasol i'r dibenion y'u bwriadwyd.

5.5.3 Pan nad oes angen data personol mwyach ar gyfer dibenion penodol, caiff ei ddileu, ei ddinistrio'n ddiogel neu ei wneud yn ddiennw yn unol â chanllawiau cadw data.

5.6 Cywirdeb

5.6.1 Rhaid i ddata personol fod yn gywir a, lle bo hynny'n briodol, wedi'i gadw'n ddiweddar. Rhaid iddo gael ei gywiro neu ei ddileu heb oedi os yw'n anghywir.

5.6.2 Byddwn yn gwirio cywirdeb unrhyw ddata personol wrth ei gasglu ac yn rheolaidd wedi hynny, a byddwn yn cymryd yr holl gamau rhesymol i ddinistrio neu ddiwygio data personol anghywir neu sydd wedi dyddio.

5.7 Cyfngiadau storio

5.7.1 Rhaid peidio â chadw data personol ar ffurf y gellir ei adnabod am yn hirach nag sy'n angenrheidiol ar gyfer y dibenion y prosesir y data ar eu cyfer, a chaiff hyn ei fanylu ar ein Cofrestr Ased Data.

5.7.2 Ni fyddwn yn cadw data personol ar ffurf sy'n caniatáu adnabod gwrthrych y data am yn hirach nag sydd angen ar gyfer diben neu ddibenion busnes cyfreithlon y gwnaethom ei gasglu'n wreiddiol ar eu cyfer yn cynnwys er diben bodloni unrhyw ofynion cyfreithiol, cyfrifo neu adrodd.

5.7.3 Byddwn yn cymryd yr holl gamau rhesymol i ddinistrio neu ddileu o'n systemau yr holl ddata personol nad ydym ei angen mwyach yn unol â'n holl bolisiâu perthnasol. Mae hyn yn cynnwys ei gwneud hi'n ofynnol i drydydd partïon ddileu data o'r fath lle bo hynny'n briodol.

6. Diogelwch, hygrededd a chyfrinachedd

6.1 Diogelu Data Personol

6.1.1 Rhaid i ddata personol gael ei ddiogelu drwy fesurau technegol a sefydliadol priodol yn erbyn prosesu anawdurdodedig neu anghyfreithlon, ac yn erbyn colled, dinistrio neu ddifrod damweiniol.

6.1.2 Byddwn yn datblygu, yn gweithredu ac yn cynnal mesurau diogelu sy'n briodol i'n maint, ein sgôp a'n busnes, yr adnoddau sydd ar gael i ni, faint o ddata personol yr ydym yn berchen arno neu'n ei gynnal ar ran eraill a'r risgiau sydd wedi'u hadnabod (yn cynnwys defnydd o amgryptio lle bo hynny'n briodol). Byddwn yn gweithredu â gofal penodol wrth ddiogelu data personol sensitif rhag colled a mynediad, defnydd neu ddatgeliad anawdurdodedig. Yn benodol, mae hyn yn cynnwys:

- (a) gwahardd cadw data personol ar gyfrifiaduron personol neu ddyfeisiau eraill;
- (b) ceisio caniatâd cyn i unrhyw ddata personol gael ei dynnu oddi ar eiddo'r Cwmni;
- (c) defnyddio cyfrineiriau cryf;
- (d) cloi sgriniau cyfrifiaduron;
- (e) sicrhau bod dogfennau sy'n cynnwys data personol a data personol sensitif yn cael eu cadw'n ddiogel;
- (f) amgryptio data wrth ei drosglwyddo'n electronig i bartïon eraill; ac

- (g) ystyried defnyddio allweddi / codau ar wahân i wneud data'n ddienw fel na ellir adnabod gwrthrych y data.

6.1.3 Byddwn yn cynnal diogelwch data drwy warchod cyfrinachedd, hygrededd ac argaeledd y data personol, wedi'i ddiffinio fel a ganlyn:

- (a) Golyga cyfrinachedd mai dim ond y bobl sydd angen gwybod ac sydd wedi'u hawdurdodi i ddefnyddio'r data personol all gael mynediad iddo.
- (b) Golyga hygrededd bod data personol yn gywir ac yn addas er y dibenion y cafodd ei brosesu.
- (c) Golyga argaeledd bod defnyddwyr awdurdodedig yn medru cael mynediad i'r data personol pan fyddant ei angen ar gyfer dibenion awdurdodedig.

6.2 Adrodd am weithredu'n groes i Data Personol

6.2.1 Mae'r GDPR yn gorfodi rheolyddion data i hysbysu'r ICO, ac mewn rhai amgylchiadau, gwrthrych y data, am unrhyw weithred yn groes i ddata personol.

6.3 Cyfyngiadau trosglwyddo

6.3.1 Mae'r GDPR yn cyfyngu trosglwyddiadau data i wledydd y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd er mwyn sicrhau nad yw lefel y diogelwch data a roddir i unigolion gan y GDPR yn cael ei thanseilio.

6.4 Hawliau a cheisiadau gwrthrychau data

6.4.1 Mae gan wrthrychau data hawliau pan ddaw hi i sut yr ydym yn trin eu data personol. Mae'r rhain yn cynnwys hawliau i:

- (i) dynnu caniatâd i brosesu yn ôl unrhyw bryd;
- (j) derbyn gwybodaeth benodol ynghylch gweithgareddau prosesu'r rheolydd data;
- (k) gwneud cais i gael mynediad i'w data personol yr ydym yn ei ddal;
- (l) atal ein defnydd o'u data personol ar gyfer dibenion marchnata uniongyrchol;
- (m) gofyn i ni ddileu data personol os nad yw'n angenrheidiol mwyach yng nghyswllt y dibenion y cafodd ei gasglu neu ei brosesu ar eu cyfer neu gywiro data anghywir neu gwblhau data anghyflawn;
- (n) cyfyngu prosesu mewn amgylchiadau penodol;
- (o) herio prosesu sydd wedi'i gyfiawnhau ar sail ein diddordebau cyfreithlon neu er budd y cyhoedd;
- (p) gwneud cais am gopi o gytundeb y caiff data personol ei drosglwyddo oddi tano y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd;
- (q) gwrthwynebu penderfyniadau yn seiliedig ar brosesu awtomatig yn unig, yn cynnwys proffilio;
- (r) atal prosesu sy'n debygol o achosi difrod neu ofid i wrthrych y data neu unrhyw un arall;
- (s) cael gwybod am weithredu'n groes i ddata personol sy'n debygol o arwain at risg uchel i'w hawliau a'u rhyddid;
- (t) gwneud cwyn i'r awdurdod goruchwyliol; a
- (u) mewn amgylchiadau cyfyngedig, derbyn neu ofyn i'w data personol gael ei

drosglwyddo i drydydd parti ar ffurf strwythuredig, a ddefnyddir yn gyffredin ac y gellir ei ddarllen gan beiriannau.

- 6.4.2 Byddwn yn gwirio hunaniaeth unigolyn sy'n gwneud cais am ddata dan unrhyw rai o'r hawliau a restrir uchod (peidiwch â chaniatáu i drydydd partïon eich perswadio i ddatgelu data personol heb awdurdod priodol).

7. Atebolrwydd

- 7.1 Mae gennym adnoddau a rheolaethau digonol yn eu lle i sicrhau a dogfennu cydymffurfiaeth GDPR, yn cynnwys:
- (a) penodi swyddogion ac Aelod o'r Bwrdd sy'n atebol am breifatrwydd data;
 - (b) darparu hyfforddiant ar y GDPR; a
 - (c) phrofi'n rheolaidd y mesurau preifatrwydd a weithredir a chynnal adolygiadau ac archwiliadau cyfnodol i asesu cydymffurfiaeth, yn cynnwys defnyddio canlyniadau profion i arddangos ymdrech i wella cydymffurfiaeth.

8. Cadw cofnodion

- 8.1 Mae'r GDPR yn ei gwneud hi'n ofynnol i ni gadw cofnodion cyflawn a chywir o'n holl weithgareddau prosesu data, bydd hyn ar ffurf ein Cofrestr Ased Data. Yn ogystal, byddwn yn cynnal cofnodion corfforaethol cywir sy'n adlewyrchu ein prosesu yn cynnwys cofnodion caniatadau a gweithdrefnau i gasglu caniatadau gwrthrychau data.

9. Archwilio

- 9.1 Byddwn yn adolygu'r holl systemau a'r prosesau dan ein rheolaeth yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r polisi diogelu data hwn a gwirio bod rheolaethau ac adnoddau llywodraethu digonol yn eu lle i sicrhau defnydd priodol a diogelu data personol.

10. Marchnata Uniongyrchol

- 10.1 Rydym yn ddarostyngedig i reolau a chyfreithiau preifatrwydd penodol wrth farchnata i'n cwsmeriaid. Er enghraifft, mae angen caniatâd ymlaen llaw gan wrthrych data ar gyfer marchnata uniongyrchol electronig (er enghraifft, drwy e-bost, testun neu alwadau awtomatig). Mae'r eithriad cyfyngedig i gwsmeriaid presennol a elwir yn "optio mewn meddal" yn caniatáu i sefydliadau anfon negeseuon testun neu e-bost marchnata os ydynt wedi derbyn manylion cyswllt yn ystod darparu gwasanaeth i'r person hwnnw, ac rydym yn marchnata cynnyrch neu wasanaethau tebyg, ac roeddent wedi rhoi cyfle i'r person optio allan o farchnata wrth gasglu'r manylion yn gyntaf ac ym mhob neges ddilynol.

11. Rhannu Data Personol

- 11.1 Yn gyffredinol, nid oes gennym hawl i rannu data personol gyda thrydydd partïon oni bai bod mesurau diogelu a threfniadau cytundebol penodol wedi'u rhoi yn eu lle.
- 11.2 Byddwn ond yn rhannu'r data personol yr ydym yn ei ddal gyda thrydydd partïon, megis ein darparwyr gwasanaeth:
- (d) os oes arnynt angen gwybod y wybodaeth er dibenion darparu'r gwasanaethau a gcontractir;
 - (e) os yw rhannu'r data personol yn cydymffurfio â'r rhybudd preifatrwydd a ddarperir i wrthrych data ac, os oes angen, bod caniatâd gwrthrych y data wedi'i dderbyn;
 - (f) os yw'r trydydd parti wedi cytuno i gydymffurfio â'r safonau, y polisiâu a'r

gweithdrefnau diogelwch data gofynnol ac wedi rhoi mesurau diogelwch digonol yn eu lle;

- (g) os yw'r trosglwyddiad yn cydymffurfio ag unrhyw gyfyngiadau trosglwyddo trawsffiniol perthnasol; a
- (h) os oes contract ysgrifenedig sydd wedi'i weithredu'n llawn ac sy'n cynnwys cymalau trydydd parti sydd wedi'u cymeradwyo o dan GDPR wedi'i dderbyn.

12. Adolygu

- 12.1 Bydd GCYGM yn adolygu'r polisi hwn yn rheolaidd, yn cynnwys adolygiad llawn bob tair blynedd.

Mabwysiadwyd gan Fwrdd Ymddiriedolwyr GCYGM ar y 10ed o Ebrill 2025